**Amcangyfrif o incwm a threuliau Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2002**

*Cyflwynwyd i Bwyllgor Archwilio Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan Adran 93(4) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998*

**Hydref 2000**

# Amcangyfrif o incwm a threuliau Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2002

## Cyflwyniad gan Archwilydd Cyffredinol Cymru

### Cefndir

1. O dan Adran 93(4) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, mae'n ofynnol i mi gyflwyno amcangyfrif blynyddol o'm hincwm a'm treuliau i Bwyllgor Archwilio Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r amcangyfrif hwn ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2002. Bwriedir i'r amcangyfrif, ynghyd â'm blaenraglen o waith gwerth am arian, gael ei ystyried gan y Pwyllgor Archwilio ar 19 Hydref 2000.

2. Ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol (2000-01), pennodd y Pwyllgor Archwilio ddarpariaeth net o £1,925,000 i gwmpasu cost:

- archwilio'r cyfrifon (namyn y ffïoedd y gallaf eu casglu gan rai cyrff ar gyfer gwaith o'r fath);
- yr archwiliad gwerth am arian;
- gwaith archwilio arall; a
- gwasanaethau gweinyddol, proffesiynol a thechnegol.

### Archwiliadau gwerth am arian

3. Mae'r ddarpariaeth y cytunodd y Pwyllgor arni y llynedd, sef £1 miliwn ar gyfer gwaith gwerth am arian yr ymgymerir ag ef rhwng 1 Ebrill 2000 a 31 Mawrth 2001, wedi galluogi Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru, sy'n gweithredu ar fy rhan, i ddechrau gweithio ar ystod eang o astudiaethau. Bydd nifer o'r astudiaethau hyn yn nodi, ac yn helpu'r rheolwyr i sicrhau, arbedion ariannol sylweddol ymhen amser. Bydd yr adroddiadau cyntaf o'r fath o'r gwaith a ariennir gan y ddarpariaeth hon yn cael eu gosod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol yn ddiweddarach eleni, a dyma fydd yn ffurfio crynswth y

deunydd ar gyfer rhaglen waith y Pwyllgor Archwilio ei hun o fis Rhagfyr 2000 ymlaen.

4. Ar gyfer 2001-02, bwriadaf gynnal lefel bresennol y gweithgarwch ar archwiliadau gwerth am arian, er mwyn parhau â'm cynlluniau i gwmpasu'r swyddogaethau lu yr ymgymerir â hwy gan y Cynulliad a'r cyrff a noddir ganddo. Cyflwynaf ddau femorandwm ar wahân i'r Pwyllgor: arolwg o'm gweithgareddau gwerth am arian hyd yma a'm blaenraglen arfaethedig.

**Archwiliadau ariannol**

5. Yn 2001-02, bydd yn ofynnol i mi gwblhau archwiliadau o 29 o gyfrifon ar gyfer blwyddyn cyfrifon ariannol 2000-01, o'u cymharu â 26 y byddaf yn eu cwblhau yn 2000-01 ar gyfer blwyddyn cyfrifon 1999-00 (mae Atodiad 1 yn cyfeirio). Yn 2001-02, bydd yn rhaid i mi hefyd ddechrau gwaith ar bedwar corff newydd sydd i'w sefydlu yng Nghymru o dan Ddeddfau Seneddol diweddar:

- Y Cyngor Cenedlaethol dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru;
- Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru;
- Comisiynydd Plant Cymru; a
- Cyngor Gofal Cymru.

Bydd y Cyngor Cenedlaethol dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn derbyn cyfrifoldeb dros y gwaith a wneir ar hyn o bryd gan Gynghorau Hyfforddiant a Menter Cymru (cwmnïau cyfyngedig yw'r rhain ac nid fi sy'n eu harchwilio) a Chyngor Ariannu Addysg Bellach Cymru.

6. Bydd lefel gweithgarwch archwiliadau ariannol hefyd yn cynyddu i adlewyrchu'r rhaglenni gwariant newydd a gefnogir gan arian Amcan Un o'r Comisiwn Ewropeaidd, gan gynnwys trosglwyddo'r cyfrifoldeb ariannol dros brosiectau a gefnogir gan y Gronfa Gymdeithasol Ewropeaidd i'r Cynulliad Cenedlaethol. Rhagwelaf y bydd angen i weithgarwch yr archwiliadau ariannol yn y maes pwysig hwn gynyddu ymhellach eto yn 2002-03 ac mewn blynyddoedd diweddarach, i adlewyrchu'r lefelau gwariant cynyddol wrth i brosiectau fynd rhagddynt.

**Crynodeb**

7. Yn ogystal ag ystyried y ffactorau uchod sy'n ymwneud ag archwiliadau ariannol a'm penderfyniad i gynnal lefel bresennol y gweithgarwch gwerth am arian, rwyf wedi cynyddu'r amcangyfrif tua 2.7 y cant o'r flwyddyn ariannol gyfredol er mwyn caniatáu am gynnydd yn y costau a ddaw i ran Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru gan gynnwys cynnydd i'w chostau cyflog.

8. Rwyf yn gwneud cais i'r Pwyllgor gymeradwyo **darpariaeth net o £2,145,000 ar gyfer 2001-02.** Ceir dadansoddiad o'r amcangyfrif hwn, ynghyd â nodiadau esboniadol, yn y tudalennau canlynol.

**John Bourn** *Cynulliad Cenedlaethol Cymru*

**Archwilydd Cyffredinol Cymru** *Bae Caerdydd*

*Caerdydd*

*2 Hydref 2000 CF99 1NA*

# Amcangyfrif o incwm a threuliau Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2002

| | **Amcangyfrif 2001-02**<br><br>**£000** | Darpariaeth<br><br>2000-01<br><br>£000 | Cyfeirnod nodyn |
|---|---|---|---|
| Archwiliadau cyfrifon | 987 | 675 | 1 |
| Archwiliadau gwerth am arian | 1,027 | 1,000 | 2 |
| Gwaith archwilio arall | 159 | 205 | 3 |
| Gwasanaethau gweinyddol, proffesiynol a thechnegol | 309 | 295 | 4 |
| **Cyfanswm treuliau** | 2,482 | 2,175 | |
| Derbynebau ffi | (337) | (250) | 5 |
| **DARPARIAETH NET Y GOFYNNIR AMDANO** | **2,145** | 1,925 | |

Nid yw’r amcangyfrif hwn yn cynnwys cost cyflog yr Archwilydd Cyffredinol, sy’n daladwy gan y Cynulliad yn uniongyrchol o dan Adran 91 Deddf 1998.

## Nodiadau esboniadol

1. Mae’r gost o archwilio cyfrifon yn cwmpasu’r gwaith y mae’n ofynnol i mi ymgymryd ag ef yn unol â safonau a osodwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio er mwyn ffurfio barn am y cyfrifon a restrir yn Atodiad 1 ar gyfer y flwyddyn cyfrifon 2000-01.

Mae hefyd yn cynnwys gwaith dechreuol ar y cyfrifon ar gyfer y flwyddyn ariannol 2001-02, a thasgiau eraill yn ymwneud ag archwiliadau ariannol.

Bydd cyfanswm cost y gwaith o gynnal archwiliadau ariannol yn 2000-01 yn cynyddu o £292,000 o 2000-01, fel y nodir isod:

| | £000 |
|---|---|
| Amcangyfrif 2000-01<br><br>A: Gwaith archwilio newydd<br><br>A: Trosglwyddo o ‘Waith archwilio arall’<br><br>A: Codiad mewn Chwyddiant | 675<br><br>206<br><br>88<br><br>18 |
| **Amcangyfrif 2001-02** | **987** |

Nodir y pedwar cyfrif newydd y byddaf yn eu harchwilio yn 2001-02 ym mharagraff 5 o’r Cyflwyniad. Mae’r amcangyfrif hefyd yn adlewyrchu cynnydd disgwyliedig costau archwilio cyfrif adnoddau’r Cynulliad am gyfnod 12 mis llawn (dim ond cyfnod 9 mis o wariant rhaglen o ddyddiad trosglwyddo’r swyddogaethau y mae cyfrif 1999-00, y bwriedir ei gwblhau yn 2000-01, yn ei gwmpasu).

Ar gyfer 2001-02, rwyf wedi cynnwys cost llunio adroddiadau ar gyfrifon (ymchwilio i sylwedd y pwnc, drafftio’r adroddiadau a’u clirio â’r partïon perthnasol) o dan y pennawd hwn. Ar gyfer 2000-01 cynhwyswyd y gost hon yn y "gwaith archwilio arall". Diben y newid hwn yw adlewyrchu natur y gwaith hwn yn fy amcangyfrif a’m cyfrifon blynyddol yn fwy cywir, ac mae’n cysoni’r strwythur â’r hyn a fabwysiadwyd gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol.

2. Mewn termau gwirioneddol, cyllidebwyd yr amcangyfrif ar gyfer archwiliadau gwerth am arian i barhau’n gyson o 2000-01. Ceir manylion pellach yn y ddau femorandwm a gyflwynwyd ar wahân i’r

Pwyllgor Archwilio.

3. Ymhlith y gwaith archwilio arall mae cost gwaith rheoli corfforaethol o fewn y Cynulliad, yn ogystal â gwaith archwilio yr ymgymeraf ag ef ar gyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad, ar gais y Cynulliad. Mae hefyd yn cynnwys y gost o gynhyrchu fy Adroddiad Cyffredinol blynyddol ar gyfer Cymru. Mae'r gostyngiad yn y costau o dan y pennawd hwn yn ganlyniad i ailddosbarthu'r gost o lunio adroddiadau ar gyfrifon, a esbonnir yn Nodyn 1.

4. Ymhlith y gwasanaethau gweinyddol, proffesiynol a thechnegol mae'r cymorth yr wyf yn ei roi i'r Pwyllgor Archwilio ar gyfer sesiynau tystiolaeth a chyngor ar adroddiadau dilynol, paratoi fy amcangyfrif blynyddol, y gwasanaethau cyfrifo a chadw llyfrau sydd eu hangen ar fy swyddfa, cost fy archwilwyr allanol (a benodwyd gan y Cynulliad), a chostau gweinyddol eraill sy'n codi wrth redeg fy swyddfa.

4. O dan Adran 93(3) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, mae caniatâd gennyf i godi ffi am archwilio cyfrifon pob corff cyhoeddus, ac eithrio'r Cynulliad ei hun. Rwyf hefyd yn codi ffi am y gwaith archwilio ariannol arall yr ymgymeraf ag ef ar y cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad. Mae'r cynnydd dros yr incwm a gyllidebwyd y llynedd o ganlyniad i ffïoedd y byddaf yn eu casglu yn 2001-02 ar gyfer archwilio cyfrifon newydd.

**Atodiad 1**

**Archwiliadau o gyfrifon ar gyfer y flwyddyn ariannol 2000-01 y bwriedir eu cwblhau yn 2001-02**

**Cyfrifon a baratowyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru**

Cyfrif Adnoddau

Cadw: Henebion Cymru

Cyfrif cryno o TECs Cymru (cyfrif cau)

Cyfrif cryno o awdurdodau iechyd Cymru

Cyfrif cryno o ymddiriedolaethau NHS Cymru

Cyfrif cryno o Gronfeydd a ddelir ar ymddiriedolaeth gan gyrff NHS Cymru

Cyfrif Trethiant Annomestig Cymru

Cronfa Bensiwn Aelodau'r Cynulliad

Swyddfa Arian Ewropeaidd Cymru (cyfrif newydd)

[9 cyfrif]

**Cyfrifon a baratowyd gan Gyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad**

Cyngor Celfyddydau Cymru*

Cyngor Cefn Gwlad Cymru

Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (cyfrif newydd)

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru

Cyngor Cyllido Addysg Bellach Cymru (cyfrif cau)

Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru

Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Cronfa Bensiwn Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru

Estyn

Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru

Cyngor Chwaraeon Cymru*

Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru

Bwrdd Croeso Cymru

Ombwdsmon Gweinyddol Cymru

Awdurdod Datblygu Cymru

Coedwigaeth Cymru (cyfrif newydd)

Bwrdd yr Iaith Gymraeg

Bwrdd Cenedlaethol Cymru ar gyfer Nyrsys, Bydwragedd ac Ymwelwyr Iechyd

Comisiynydd NHS Cymru

[20 cyfrif]

*Bydd cyfrifon Dosbarthu'r Loteri Genedlaethol yn parhau i gael eu harchwilio gan y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol ac i gael eu gosod gerbron y Senedd a'r Cynulliad.